PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT
DYDD MERCHER, 16 MAWRTH 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd D. Price (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
S.M. Allen, L.R. Bowen, K.V. Broom, J.P. Jenkins, B.W. Jones, D. Jones, G.R. Jones, M.J.A. Lewis, E. Morgan (yn lle S.L. Davies), E.M.J.G. Schiavone, E.G. Thomas a D.T. Williams

Aelodau Cyfetholedig:

A. Enoch	-	Rhiant-lywodraethwr
F. Healey-Benson	-	Rhiant-lywodraethwr
V. Kenny	-	Cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig Rufeinig
Parchedig D. Richards	-	Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru

Cynrychiolwyr Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth:

Mr D. Williams	-	Pennaeth
Mrs L. Jones	-	Pennaeth Cynorthwyol, Cynhwysiant a Llesiant
Mrs L. Thomas	-	Pennaeth Cynorthwyol, Canolfan Elfed
Mrs V. Brook	-	Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cynrychiolydd PARTNERIAETH yn bresennol:

Mr I. Altman	-	Swyddog Arweiniol PARTNERIAETH

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg
A Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
S. Smith, Pennaeth Gwasanaethau Plant
E. Forsyth, Pennaeth Dros Dro Effeithiolrwydd Ysgolion
N. Jackman, Rheolwr Gwasanaeth
R. Williams, Rheolwr Darpariaeth Anghenion Ychwanegol
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 1.08 yp

[Noder:

- Am 12:55pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd y byddai'r cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr am 1:00pm, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.]

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Davies a R. James. Hefyd, dywedodd y Cadeirydd na fyddai'r Cynghorydd G. Davies, yr Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant, yn bresennol yn y cyfarfod.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Mynychwr	Rhif y Cofnod(ion)	Y Math o Fuddiant
E. Schiavone	5	Mae aelod o'r teulu yn gweithio i PARTNERIAETH.
V. Kenny	6	Mae ei merch yn gweithio yn yr is-adran Gwasanaethau Plant.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor.

4. SESIYNAU YMGYSYLLTU YSGOLION

Yn unol â'r Rhaglen Ymgysylltu ag Ysgolion y cytunwyd arni gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2021, cyflwynwyd adroddiad i'r Aelodau a oedd yn nodi pa mor barod oedd yr ysgolion am Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ac am roi'r ddeddf honno ar waith.

Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o'r amrywiaeth o fesurau a roddwyd ar waith gan yr Awdurdod i baratoi ar gyfer cyflwyno'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Yn hyn o beth, darparwyd crynodeb i'r Pwyllgor o'r gwaith ymgysylltu ag ysgolion hyd yn hyn er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno system addysg gwbl gynhwysol ar gyfer dysgwyr yn Sir Gaerfyrddin, a fyddai'n sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu nodi'n gynnar a'u diwallu'n gyflym, a lle mae pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gyrraedd ei botensial.

Yna, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y cynrychiolwyr o'r ysgol a oedd yn canolbwyntio ar y broses o symud yr ysgol i'r system newydd. Nod y system hon oedd darparu strwythur addysgol teg a chynhwysol a sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc ag ADY. Roedd y pwyntiau allweddol dan sylw yn y cyflwyniad yn cynnwys y canlynol:

- Roedd y system ADY yn ceisio trawsnewid y dulliau ar wahân ar gyfer anghenion addysgol arbennig er mwyn creu system unedig i gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol rhwng 0 a 25 oed.
- Roedd yr egwyddorion trawsbynciol ar gyfer diwygio addysg sy'n deillio o ganllawiau a rheoliadau cenedlaethol yn galluogi cyfleoedd i newid a oedd yn ceisio darparu:
  - cydraddoldeb mynediad;
  - dysgu 'sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' wedi'i bersonoli;
  - ffocws ar lesiant, drwy addysgu cytbwys a strwythuredig o ansawdd uchel ac asesu ystyrlon, gan symud i ffwrdd o ystadegau;

- ethos ysgol cynhwysol i sicrhau amgylchedd dysgu diogel, cefnogol ac ysgogol;
- diwylliant o gydweithio.

- Byddai'r system ADY yn cael ei hategu gan God ADY gorfodol a fyddai'n rhoi barn, dymuniadau a theimladau dysgwyr wrth wraidd y broses o gynllunio'r cymorth sydd ei angen, a fyddai wedyn yn eu galluogi i ddysgu'n effeithiol a chyflawni eu potensial llawn.

- Byddai Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu disodli gan Gynlluniau Datblygu Unigol yn raddol a fyddai'n nodi disgrifiad o ADY plentyn neu berson ifanc.

- Ystyriwyd bod cysyniad addysgu cyffredinol da, yn ogystal ag ymyriadau pwrpasol, a'r angen i groesawu'r cwricwlwm a strategaethau newydd i gefnogi pob disgybl o'r pwys mwyaf i fodloni gofynion y Ddeddf.

- Byddai'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn chwarae rhan strategol allweddol ym mhob ysgol.

Rhoddwyd sylw i nifer o arsylwadau ac ymholiadau, fel a ganlyn:

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch rôl rhieni a gwarcheidwaid wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Unigol, eglurodd y Cynrychiolwyr o'r Ysgol y dulliau cyfathrebu a oedd yn cael eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth o'r system newydd. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod rhieni a gwarcheidwaid yn cael eu rhoi wrth wraidd y broses, drwy gyfathrebu'n effeithiol ac yn rheolaidd â'r ysgol, er mwyn sicrhau darpariaethau ac addasiadau priodol i gefnogi anghenion plant a phobl ifanc ag ADY. Sicrhawyd y Pwyllgor wrth nodi bod y broses yn gweithio'n dda hyd yn hyn, wrth i rieni a gwarcheidwaid chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Datblygu Unigol. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod y system newydd yn seiliedig ar ddull partneriaeth a oedd yn hyrwyddo perthynas agored ac adeiladol rhwng ysgolion a rhieni/gwarcheidwaid. Yn hyn o beth, cyfeiriodd Rheolwr y Ddarpariaeth Anghenion Ychwanegol at y rhaglen ymgysylltu weithredol i ddarparu cymorth priodol i rieni/gwarcheidwaid.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch nifer y disgyblion â CDU, eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod trawsnewid ADY yn rhan o gyfres o raglenni diwygio addysg yng Nghymru, lle byddai addysgu dosbarth cyfan cadarn a chyffredinol yn effeithio'n uniongyrchol ar y Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol sydd ei hangen ar ddisgyblion ag ADY.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y systemau sydd ar waith i gefnogi disgyblion mwy abl a thalentog yn yr ysgol, ynghyd â'r heriau y mae athrawon yn eu hwynebu i ddarparu rhaglenni astudio gwahaniaethol a phwrpasol i ddisgyblion. Roedd y Cynrychiolwyr o'r Ysgol yn cydnabod yr amrywiaeth o alluoedd yn yr ysgol gan roi sicrwydd bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu drwy raglenni a chynlluniau, i ddiwallu anghenion pob grŵp o ddysgwyr.

Yn hyn o beth, roedd y Cynrychiolwyr o'r Ysgol yn falch o roi gwybod bod cwricwlwm yr ysgol yn cael ei adolygu a'i addasu yn ôl yr angen; hefyd, roedd yr athrawon, gyda chyfraniad gwerthfawr Cynorthwywyr Addysgu, yn darparu ar gyfer anghenion disgyblion drwy addysgu cyffredinol cadarn.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch integreiddio disgyblion rhwng prif ffrwd yr ysgol a'r Ganolfan Cynhwysiant Arbenigol (Canolfan Elfed), dywedodd y Cynrychiolwyr o'r Ysgol fod Canolfan Elfed wedi derbyn gwobr genedlaethol yng Ngwobrau Addysgu Pearson i gydnabod yr ystod ragorol o adnoddau dysgu ar-lein cynhwysol ar gyfer disgyblion yn ystod pandemig coronafeirws.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch y fformiwla ariannu ar gyfer ADY, ac a ystyriwyd bod hyn yn ddigonol i fodloni gofynion y Ddeddf. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant a Rheolwr y Ddarpariaeth Anghenion Ychwanegol y byddai'r dyraniad o £2m o gyllid ychwanegol ar gyfer 2022/23 yn cael ei gwblhau'n fuan, a hynny ar ôl ymgynghori ag ysgolion a chynrychiolwyr y Fforwm Cyllidebol. Esboniwyd y byddai'r arbedion yn y dyfodol o ganlyniad i derfynu Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu bwydo'n ôl i'r system ac yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion o ran defnyddio'r cyllid; fodd bynnag, oherwydd bod y rhaglen trawsnewid ADY yn cael ei rhoi ar waith yn raddol, cydnabuwyd na fyddid yn gweld yr arbedion am dair blynedd arall.

Cyfeiriwyd at y cwricwlwm cerdd ar gyfer ADY ac roedd Rheolwr y Ddarpariaeth Anghenion Ychwanegol yn falch o roi gwybod bod cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi'i ddarparu ar gyfer ysgolion drwy'r grant Offerynnau Cerdd wedi'u Haddasu.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

5. DIWEDDARIAD AR PARTNERIAETH

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd E. Schiavone wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried].

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn nodi'r trefniadau cydweithredol ar gyfer sefydlu 'PARTNERIAETH', sef consortiwm rhanbarthol i hyrwyddo rhagoriaeth, a fyddai'n gwasanaethu'r ysgolion yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro ac Abertawe.

Yna, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Swyddog Arweiniol PARTNERIAETH, a oedd yn manylu ar y strwythur staffio, y blaenoriaethau, y swyddogaethau a'r dulliau ariannu sydd eu hangen i gyflawni ei nodau a'i amcanion. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y consortiwm rhanbarthol yn seiliedig ar weledigaeth o weithio mewn partneriaeth ar ran yr Awdurdodau Lleol perthnasol ac a oedd yn cyfrannu at wella perfformiad yr ysgolion yn y consortiwm ac addysg plant a phobl ifanc. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y cynllun busnes ar gyfer 2022/23, a oedd yn dangos sut y byddai PARTNERIAETH yn cefnogi blaenoriaethau pob Awdurdod Lleol, wedi'i hwyluso gan Uwch-ymgynghorwyr Strategol penodedig, a hefyd yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol.

Rhoddwyd sylw i nifer o arsylwadau ac ymholiadau, fel a ganlyn:

Mynegwyd pryder mai ychydig o effaith gadarnhaol y byddai'r consortiwm rhanbarthol newydd yn ei chael ar ysgolion o bosib ac felly na fyddai'n gwella perfformiad y system 'ERW' flaenorol, yn enwedig yng ngoleuni'r strwythur staffio llai a oedd yn cyfateb i 26.8 o swyddi llawn amser.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod consortiwm PARTNERIAETH yn canolbwyntio ar ddull partneriaeth cydlynol, â dulliau cyfathrebu a monitro perfformiad cryf i fynd i'r afael ag anghenion ysgolion. Er enghraifft, roedd rhaglen arweinyddiaeth yn cael ei datblygu yn unol â maes blaenoriaeth yr Awdurdod o ran sgiliau arwain.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd Swyddog Arweiniol PARTNERIAETH y byddai gwaith craffu rheolaidd yn cael ei wneud i fonitro ac adolygu'r modd y caiff nodau ac amcanion y consortiwm eu cyflawni. Byddai pwyslais yn cael ei roi ar gydweithio fel cryfder allweddol, lle byddai'r system yn cael ei datblygu a'i strwythuro ar sail partneriaeth.

Cyfeiriwyd at y strwythur staffio a gofynnodd aelod a oedd angen rhagor o adnoddau i ddarparu cymorth o ansawdd tebyg i'r gwasanaeth rhagorol a ddarparwyd gan yr Ymgynghorwyr Her. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod y strwythur staffio yn cael ei ystyried yn briodol i fodloni nodau ac amcanion y consortiwm ac y byddai'n cael ei adolygu o bryd i'w gilydd yn unol â phrotocolau cynllunio olyniaeth i sicrhau bod sgiliau gweithwyr yn mynd i'r afael â'r gofynion o ran cymorth.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch dyblygu gwaith, esboniwyd bod cyd-greu, gyda llinellau cyfathrebu clir, yn brif flaenoriaeth, a fyddai'n golygu bod modd defnyddio sgiliau a nodwyd o fewn y consortiwm i gynnig gwell darpariaeth i ysgolion.

Tynnodd aelod sylw at y ffaith y gallai'r gwahanol flaenoriaethau ar draws yr Awdurdodau yn y consortiwm olygu bod rhai Awdurdodau yn defnyddio mwy o adnoddau a chymorth nag eraill a holodd sut y byddai'r anghydbwysedd hwn yn cael ei unioni. Roedd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant yn cydnabod y byddai pwysau o wahanol feysydd yn dod i'r amlwg ar wahanol adegau, ond pwysleisiwyd y byddai cyfathrebu rheolaidd a chlir yn cael ei gynnal ar lefel Cyfarwyddwr er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio i ddiwallu anghenion y consortia, ynghyd â swyddogaeth graffu i sicrhau bod cyfran gyfartal o wasanaethau'n cael ei defnyddio ymhlith partneriaid. Tynnwyd sylw'r aelodau hefyd at y ffaith bod PARTNERIAETH yn endid llai â phrosesau rheoli cadarn i sicrhau na fyddai ceisiadau ychwanegol gan Awdurdodau allanol yn cael eu derbyn pe baent yn cael eu hystyried yn niweidiol i'r consortia.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

6. CYSYLLTIADAU AC ATGYFEIRIADAU I'R GWASANAETHAU PLANT

[SYLWER: Roedd V. Kenny wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, ac arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ei hystyried].

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r Awdurdod mewn perthynas â'r cysylltiadau a'r atgyfeiriadau, y pwysau a'r gofynion yn yr is-adran Gwasanaethau Plant.

Atgoffwyd yr Aelodau bod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yn ei gyfarfod ar 8 Gorffennaf 2021 ac felly ystyriwyd ei bod yn amserol rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran y cynnydd yn y llwyth gwaith yn yr is-adran; yr heriau sy'n cael eu hwynebu a'r angen posibl am adnoddau ychwanegol.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar faes gorchwyl a strwythur yr is-adran Gwasanaethau Plant ac yn nodi gwybodaeth berthnasol i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r lefelau staffio a'r prosesau a ddilynir gan y Tîm Cyfeirio Canolog, y Tîm Asesu a'r Timau Gofal Plant Tymor Hir, i ddelio ag achosion. Hefyd, roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y gwasanaethau ataliol a ddarperir gan yr is-adran, gan gynnwys mentrau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf a chyfeiriodd hefyd at strwythur newydd a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer y plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Roedd yr adroddiad yn dangos cynnydd mewn cysylltiadau ers dechrau'r pandemig, er y nodwyd bod nifer yr atgyfeiriadau wedi gostwng yn ystod 2021/22 a allai fod wedi'u priodoli i'r ffaith bod y Gwasanaethau Ataliol wedi ailddechrau darparu cymorth wyneb yn wyneb wrth i'r cyfyngiadau coronafeirws gael eu llacio.

Rhoddwyd sylw i nifer o arsylwadau ac ymholiadau, fel a ganlyn:

Cyfeiriodd y Pwyllgor at yr argyfwng recriwtio cenedlaethol parhaus a chodwyd pryderon ynghylch y risgiau i'r Awdurdod yn sgil yr anawsterau i benodi gweithwyr cymdeithasol. Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaeth grynodeb i aelodau o'r amrywiaeth o fesurau sydd wedi'u rhoi ar waith i liniaru'r risgiau hynny, gan gynnwys adolygiad parhaus a oedd yn ceisio gwella cyflog gweithwyr cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y gyfradd gyflog yn unol ag Awdurdodau eraill, a recriwtio gweithwyr cymdeithasol â chymwysterau addas o wledydd tramor. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant at yr amodau gwaith ffafriol yn yr Awdurdod, felly roedd yn braf nodi nad oedd cadw gweithwyr yn faes sy'n peri pryder. Hefyd, cafodd y gwasanaeth o ansawdd uchel a gynhelir gan yr is-adran, sy'n gorfod delio â materion cymhleth, ei ganmol gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant ac aelodau'r Pwyllgor.

HYD Y CYFARFOD

Wrth roi ystyriaeth i'r eitem hon, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o'r Weithdrefn Gorfforaethol - Hyd Cyfarfod - ac at y ffaith bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers bron i dair awr. Felly:

PENDERFYNWYD atal Rheol 9 o'r Weithdrefn Gorfforol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried y materion oedd yn weddill ar yr agenda.

Mynegwyd pryder nad oedd pob plentyn sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref wedi cael ymweliad cartref blynyddol statudol gan yr Awdurdod. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant fod arian ychwanegol wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n mynd i'r afael â'r cynnydd yn y galw ar yr is-adran o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref ledled Cymru ers dechrau'r pandemig coronafeirws.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

7. DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â cheisiadau neu atgyfeiriadau a oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol yn ystod blwyddyn y cyngor 2021/22.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 IONAWR, 2022

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2022 yn gofnod cywir.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**